PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 12 MEDI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Hudson, Lister, Mackie a/ac Murphy |

17 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

18 : DATGAN BUDDIANNAU

Roedd gan yr Aelodau gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw.

19 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir.

20 : ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad;
- Philip Lenz, Prif Reolwr Adnoddau Dynol;
- Anita Batten, Rheolwr Gweithredol, Partner Pobl AD;
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y creffir ar ddull y Cyngor o fynd i'r afael â lefelau absenoldeb salwch. Roedd y Pwyllgor yn dal i fod â diddordeb mewn monitro gwelliant trwy ganolbwyntio ar lefelau cyfredol, targedau a chynlluniau gweithredu.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet Chris Weaver i wneud datganiad.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor eu bod yn mynd i'r afael â materion gwelliant a bod gwaith yn barhaol, gydag adolygiad mewnol yn cynnwys APSE, oedd wedi awgrymu 16 o Argymhellion, wrth fynd ymlaen gyda Chynllun Gweithredu. Ar gyfer Chwarter 1 roedd arwyddion o welliant yn lefelau absenoldeb salwch o'u cymharu â'r llynedd. Felly roedd y ffigurau salwch a ragwelwyd yn is ar gyfer 2018/19 a byddai'r Cynllun Gweithredu yn helpu i gefnogi iechyd a llesiant staff wrth fynd ymlaen.

Gwahoddodd y Cadeirydd Philip Lenz, Prif Swyddog Adnoddau Dynol i roi cyflwyniad ar yr Adolygiad o Absenoldeb Salwch a amlinellodd y canlynol:

- Diwrnodau cyfwerth ag amser llawn wedi'u colli yng Nghyngor Caerdydd oherwydd salwch

- Data Cymru Gyfan ar Salwch
- Data 2017/18 o Ddinasoedd Craidd
- Nid yw 38.80% o'r gweithlu wedi bod yn sâl
- Cyfran y cyfnodau cyfan o salwch a gofnodwyd fesul rheswm am absenoldeb 2017/18
- Diwrnodau cyfwerth ag amser llawn wedi'u colli fesul rheswm, roedd y rhan fwyaf ohonynt oherwydd Straen (ddim yn gysylltiedig â'r gwaith) a chyhyrysgerbydol
- Gwybodaeth Iechyd Meddwl gan Gyfarwyddiaethau
- Diagnosis yn unol â'r ddogfen Dosbarthu Heintiau Rhyngwladol
- Gwybodaeth trwy Grade am ddiwrnodau wedi'u colli
- Achosion yn cyrraedd camau gwahanol a diswyddo
- Adolygiad 2017/18 o Absenoldeb Salwch
- Atgrynhoad o Adolygiad APSE
- Cynnydd y Cynllun Gweithredu
- Adolygiad Polisi
- Cefnogi Rheolwyr
- Ysgolion - Ystodau o ddiwrnodau cyfwerth ag amser llawn wedi'u colli ar gyfer ysgolion ym mhob sector
- Ymyrraeth gynnar
- Amseroedd Aros Iechyd Galwedigaethol
- Mentrau Iechyd a Llesiant
- Y ffliw fesul Chwarter
- Mentrau Iechyd a Llesiant

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai staff rheng flaen y Cyngor yn cael cynnig o frechiad rhag y ffliw trwy gynllun talebau fel mesur ataliol a byddai hyn yn dechrau yn yr Hydref.

Dywedodd ei bod wedi clywed bod y Cyngor wedi cyflawni y Safon Iechyd Corfforaethol Arian a bellach mewn sefyllfa i geisio'r safon Aur.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y data a roddwyd ar lefelau Salwch Dinasoedd Craidd a nododd fod Caerdydd ar y gwaelod. Hefyd, pan ystyriwyd Absenoldeb Salwch gan y Pwyllgor ym mis Ionawr 2018, cafwyd argymhelliad bod swyddogion yn edrych ar bolisi absenoldeb salwch Cyngor Merthyr, ynghyd â mesurau arfer gorau mewn cynghorau tebyg ac adrodd yn ôl.

Esboniodd y Swyddogion fod Caerdydd yn gweithio gydag APSE ac yn edrych ar arferion gwaith mewn awdurdodau lleol tebyg ac roedd argymhellion yn yr adroddiad oedd yn unol ag arfer da. Yn anffodus, nid oedd swyddogion yn gallu mynd i Gyngor Merthyr oherwydd tywydd gwael, ond roeddent wedi aildrefnu'r ymweliad â'r Cyngor yr wythnos honno.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at argymhellion yr APSE a chydnabuwyd bod awdurdodau lleol eraill wedi datblygu arferion gwaith amgen i fynd i'r afael ag absenoldeb salwch. Awgrymodd y Pwyllgor fod swyddogion yn edrych ar fodel Merthyr, oedd ar 6.8 diwrnodau cyfwerth ag amser llawn wedi'u colli, gan fod enghreifftiau o lai na 9 diwrnod cyfwerth ag amser llawn wedi'u colli.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at gyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith mewn ysgolion gan ei bod yn bosibl nad yw pob absenoldeb salwch wedi'i adrodd, ac nad yw'r prosesau cywir yn cael eu dilyn.
Rhoddwyd diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol gydag ysgolion ac nid oedd swyddogion yn ymwybodol o unrhyw faterion o beidio ag adrodd.

Trafododd y pwyllgor diwrnodau absenoldeb salwch wedi'u colli oherwydd cyhyrysgerbydol a gofynnodd faint oedd yn gysylltiedig â'r gwaith.

Esboniwyd i'r Pwyllgor nad yw problemau cefn sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.  Byddai'r swyddogion Iechyd Galwedigaethol yn argymell asesiad risg ac roedd hyn yn cael ei dreialu yn Ffordd Lamby.

Gofynnodd y Pwyllgor am fecanweithiau adrodd salwch a phe bai cyflogai'n cael ei anfon adref yn sâl, fyddai'r diwrnod cyntaf neu'r hanner diwrnod yn cael ei adrodd fel salwch.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am wybodaeth am atgyfeiriadau awtomataidd at iechyd galwedigaethol, faint mae rheolwyr yn asesu'r cyflogai, ac a yw'n orfodol i gyflogai fynd i atgyfeiriad.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y broses atgyfeirio sydd ar waith, nad yw'n cyfeirio at esgyrn wedi'u torri yn y rhan fwyaf o achosion.  Byddai rheolwyr yn cytuno ar atgyfeiriad i Iechyd Galwedigaethol, gyda chefnogaeth AD.  Mae cyflogai yn gorfod mynd i'r atgyfeiriad.

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am bolisïau ysgolion ar gyfer cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith.

Dywedwyd wrth yr aelodau, pa fo ysgol yn mabwysiadu polisi absenoldeb salwch y Cyngor, y dylai'r Corff Llywodraethu sicrhau y glynir ato.  Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw Gyrff Llywodraethu oedd yn ymgynghori ar bolisïau amgen.  Gallai ysgol ddatblygu ei pholisi ei hun ond byddai angen ymgynghori'n llawn arno gydag Undebau Llafur.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor a oes modd rhannu gwybodaeth am ysgolion gyda Chyrff Llywodraethu ehangach, gyda phenderfyniadau ymgynghoriadau'n cael eu hanfon i Benaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu.

Gofynnodd y Pwyllgor am y cynnydd ym materion straen nad ydynt yn gysylltiedig â'r gwaith ac a oes dadansoddiad wedi'i wneud i ddeall a yw'r materion hyn yn cael eu hachosi gan ffactorau sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

Dywedodd y Pwyllgor y rhagwelwyd 10.5 diwrnod cyfwerth ag amser llawn yn rhan o adrodd Chwarter 1.   Roedd rhannau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn profi straen yn gysylltiedig â'r gwaith, ac roedd asesiadau risg ar waith i gefnogi hyn.  Roedd Swyddog Iechyd a Diogelwch newydd yn gweithio a byddai'n delio gyda'r materion hyn. Byddai diweddariad yn cael ei roi mewn 6 mis.

Trafododd y Pwyllgor arferion llesiant yn y gymuned sy'n cynnwys Clystyrau Meddyg Teulu gyda staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.   Cynigiodd

Canolfan Hamdden Trem y Môr wasanaethau ar ostyngiad i gyflogeion.  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Cyngor wedi ymgysylltu â Chlystyrau Gogledd a Gorllewin Caerdydd. .

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y arfer o 'ragnodi cymdeithasol' fel menter dda a ddefnyddir gan sefydliadau megis Dai Cymru Unedig.    Roedd arian ar gael ar gyfer cynllun treialu brechiad rhag y ffliw ar gyfer staff rheng flaen.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at lefel yr absenoldeb salwch ym maes addysg, a adroddwyd 6 mis yn ôl.  Roedd y diwylliant yn amlwg ar bob lefel ym maes Addysg ac roedd yn hanfodol bod Cyfarwyddwyr yn delio gyda than-berfformiad o ganlyniad i absenoliaeth.

Dywedwyd wrth aelodau'r Pwyllgor fod y materion ym maes addysg yn ymwneud yn bennaf ag arlwyo, rhan fawr o'r gweithlu, oedd yn cynnwys staff rhan amser. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gweithredu ac eir i'r afael â threfniadau adrodd ac maent wedi'u cynnwys ar agenda wythnosol y tîm rheoli.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor na chofnodir newid tymhorol yn rhan o'r broses absenoldeb salwch.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y system tracio cyflym sydd ar waith wrth atgyfeirio cyflogeion i'r adran iechyd galwedigaethol mewnol.

Nododd y Pwyllgor y cynnydd yn Absenoldeb Salwch yn y 3 blynedd ddiwethaf.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

21 : STRATEGAETH CYLLIDEB 2019/20

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad;
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau;
- Ian Allwood, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol
- Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau
- Clare Marchant, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Oedolion

Esboniodd y Cadeirydd fod hyn yn gyfle i'r Pwyllgor ystyried Strategaeth Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2019/20 yng nghyd-destun beth mae wynebu galw sy'n cynyddu o ganlyniad i ddemograffig sy'n newid a chostau gofal sy'n cynyddu ar adeg pan fo cyllidebau'n lleihau yn ei olygu i Gyfarwyddiaeth.   Byddai'r Pwyllgor yn canolbwyntio'n benodol ar yr heriau a wynebir a'r gwaith o gynllunio gwydnwch ariannol sydd ar y gweill yn rhan o'r strategaeth yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion y Cyngor.

Gwahoddodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Weaver wneud datganiad.

Esboniodd y Cynghorydd Weaver fod y strategaeth i fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb o £34.2m yn 2019/20 wedi'i fframio o gwmpas pedair tybiaeth:

1. Cynnydd yn y Dreth Gyngor o 4.3% sy'n creu £5,785m
2. Cap ar dwf ysgolion sy'n creu £2,796m
3. Defnyddio arian wrth gefn wedi ei glustnodi sy'n creu £1,5m
4. Angen arbed £24,117m

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Cyd-destun Cynllunio ar gyfer y Cyngor.
- Siâp Cyllideb 2018/19 y Cyngor o £609m, Bwlch Strategaeth y Gyllideb (£91.4m to 21/22, £34.2m 19/20)
  - Defnyddio arian wrth gefn
  - Arbedion
  - Cap ar Dwf Ysgolion
  - Treth Gyngor
- Risgiau a Gwydnwch Ariannol

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gan y Cyngor arian wrth gefn wedi'i neilltuo. Mae Cronfa Cyllideb Strategol wedi'i chreu trwy ddefnyddio arian dros ben y gellid ei ddefnyddio yn ôl yr angen. Mae hyn wedi bod yn addas at y diben, a byddai cynllun yn cael ei ddatblygu i ailgyflenwi hyn.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor ar yr adeg hon mai tybiaeth oedd y wybodaeth yn yr adroddiad, a allai newid, ond disgwyliwyd cynnydd o ryw raddau yn y Dreth Gyngor.

Tynnodd aelodau'r Pwyllgor at lefel yr arian wrth gefn sydd gan ysgolion ac effaith cap 1% ar gyllidebau ysgolion.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cap wedi bod ar waith am sawl blwyddyn, ond, byddai'r ysgol yn dioddef elfen y cap. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian ychwanegol yn ôl i ysgolion ar gyfer cynnal a chadw yn 2017/18 ac mae balansau wedi'u chwyddo. Mae gan wahanol ysgolion wahanol heriau sy'n cael eu trafod yn barhaol.

Trafododd y Pwyllgor y pwysau twf ynghyd â'r cyllidebau ysgolion dirprwyedig. Aethpwyd i'r afael â'r dyfarniad cyflog gan gynnwys arian wedi'i neilltuo i ysgolion ac arian wedi'i neilltuo i ysgolion yn y gorffennol.

Gwahoddodd y Cadeirydd Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau a Clare Marchant, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i roi cyflwyniad, a amlinellodd y canlynol:

- Gwella gwasanaeth a chynaliadwyedd ariannol
- Hanes Cyllideb y Gwasanaethau Oedolion
- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion: Lle rydym yn gwario'r arian
- Prif Heriau – Twf Demograffig
- Prif Heriau – Costau sy'n Cynyddu
- Gwasanaethau Cymdeithasol i oedolion – Sut rydym yn ymateb i'r pwysau hyn
- Gwasanaethau Oedolion – Galw Rheoli Ataliaeth
- Gwasanaethau Oedolion – Yr Effaith

- Hanes Cyllideb Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant – lle gwariwyd yr arian
- Gwasanaethau Plant – Galw a phwysau cost
- Model Newydd
- Cymorth i deuluoedd
- Gwasanaethau Plant - Arwyddion Diogelwch (Ailfodelu’r Gwasanaethau Plant)
- Gwasanaethau Plant – Galw a phwysau cost
- Project Lleoliadau Plant: Adolygiad Maethu
- Lleoliadau Plant - Preswyl
- Project Lleoliadau Plant – Preswyl Caerdydd

Diolchodd y Cadeirydd y Swyddogion am y wybodaeth gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Roedd pryderon gan y Pwyllgor am ddiffyg cynllunio o ran y gyllideb yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, o ystyried fod gorwariant ar ddechrau’r gwaith o fonitro’r gyllideb.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod nifer sylweddol o Blant sy’n Derbyn Gofal yn cael eu cefnogi trwy’r system; gallai hyn fod yn duedd cyfredol neu gallai barhau am gyfnod.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at sut mae’r farnwriaeth yng Nghaerdydd yn delio gydag achosion Amddiffyn Plant o’i chymharu â gweddill Cymru.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau o’r broses farnwriaeth yng Nghaerdydd, sy'n gweithredu’n wahanol i’r un yng Nghasnewydd, gyda’r Bwrdd Cyfiawnder Fforwm Lleol a sut mae hyn wedi effeithio ar Gaerdydd.

Clywodd y Pwyllgor am yr adnoddau statudol sydd ar waith i gefnogi’r Gwasanaethau Plant a’r Gwasanaethau Oedolion, sy’n cael eu gyrru’n bennaf gan fesurau diogelwch. Mae’n hanfodol arfer y model cywir i edrych ar risg ac ymyrraeth.

Clywodd y Pwyllgor fod galw yn y Gwasanaethau Plant yn codi’n gyflym, ac mae angen ymyrraeth cyn gynted â phosibl. Mae gan y Cyngor y gyfran isaf o leoliadau maeth mewnol ledled Cymru. Mae asiantaethau maethu annibynnol y sector preifat yn darparu’r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd.

Nododd y Pwyllgor y byddai’r pwysau cyllideb cyfredol yn dal i arwain at orwariant yn y Gyfarwyddiaeth. Mae mwy o bwysau yn cael eu nodi ac mae canolbwynt yn cael ei gyfeirio at ataliaeth. Byddai’r flwyddyn ariannol nesaf yn anodd hefyd, gyda mwy o effeithiau posibl ar y gyllideb ond byddai rheoli perfformiad gwych yn allweddol o ran darparu’r gwasanaeth o fewn y gyllideb wedi’i gosod.

Mae galw am oedi wrth drosglwyddo gofal yn cynyddu ac mae adnoddau ar gael i ddelio gyda hyn. Mae’r Cyngor felly'n ceisio ffyrdd newydd o weithio gyda chydweithwyr iechyd i wella achosion rhyddhau o’r ysbyty.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.

22 : RHAGLEN WAITH 2018-19

Ystyriodd y Pwyllgor ei raglen waith gynlluniedig ar gyfer 2018/19.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor ar y canlynol:

i. Bod y Rhaglen Waith Ddrafft yn Atodiad 2 yn dod y rhaglen waith amlinellol ar gyfer y Pwyllgor, er gwaethaf materion sy'n codi trwy'r flwyddyn nad ydy'r Pwyllgor yn gwybod amdanynt yn awr.
ii. Nodi y bydda'r rhaglen waith ei diweddaru bob tri mis.
iii. Y bydd y Panel Perfformiad a'i aelodaeth yn parhau.

Mae'r Cadeirydd yn cylchredeg y Rhaglen Waith derfynol ar gyfer 2018/19 i bob aelod o'r Pwyllgor a phob rhandeiliad.

23 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 3 HYDREF 2018 AM 4.30PM